30 Mai 2017

Annwyl Swyddog Cyfrifol

**Datganiad Cydymffurfiaeth 2017**

Bydd eich datganiad cydymffurfiaeth bellach ar gael i chi drwy eich adran ddiogel ar wefan QiW (www.qiw.wales) o ddydd Iau 1 Mehefin. Mae angen i chi gyflwyno eich datganiad i ni rhwng **dydd Iau 1 Mehefin a hanner nos dydd Gwener 29 Medi 2017**.

Os nad oes gennych gyfrif mewngofnodi diogel ar gyfer QiW eisoes, dylech fod wedi derbyn manylion mewngofnodi diogel gennym. Hefyd, dylai eich cydweithwyr a ofynnodd am fanylion mewngofnodi ychwanegol fod wedi derbyn y rhain gennym. Os nad ydych wedi derbyn y manylion hyn neu os oes angen eich atgoffa o'ch manylion mewngofnodi diogel, cysylltwch â ni yn datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org.

Rydym wedi cyflwyno fideos canllawiau i ddefnyddwyr a ddylai eich helpu i lywio'r datganiad cydymffurfiaeth ar-lein a chyflwyno eich datganiad i ni. Mae'r rhain ar gael ar yr adran datganiad cydymffurfiaeth ar ein wefan a drwy’r adran canllaw ar QiW. Os byddwch yn cael unrhyw drafferthion wrth gwblhau eich datganiad gallwch roi gwybod i ni am y rhain drwy ddefnyddio'r botwm 'anfon adborth/rhoi gwybod am broblem' sydd ar gael yn QiW.

Rydym wedi atodi dogfen cywiro diffygion sy'n esbonio sut i oresgyn problem gyffredin y gallech ddod ar ei thraws wrth fewngofnodi i QiW.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Denver Davies
Pennaeth Monitro and Chydymffurfio

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701